



Dyddiad cyhoeddi: 28 Ebrill 2020

Mesurau rheoli COVID-19

Diolch am eich cais Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar 6 Ebrill 2020. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch am:

- wybodaeth am y mesurau rheoli COVID-19 rydych chi wedi'u rhoi ar waith yn nepo Treganna a Machynlleth, a'r dyddiadau y daeth y mesurau hyn i rym

Fodd bynnag, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, nid oes yn rhaid i TrC gyflenwi'r wybodaeth y gofynnir amdani gan ei bod yn destun esemptiad i'r hawl i gael mynediad at wybodaeth o dan adran 38 - Iechyd a Diogelwch.

Mae defnyddio'r esemptiad hwn yn destun asesiad o'r budd cyhoeddus mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Mae TrC yn cydnabod yr angen i fod yn agored a thryloyw o fewn awdurdodau cyhoeddus a'r graddau o fudd cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli rydych chi wedi'u rhoi ar waith yn nepo Treganna a Machynlleth. Fodd bynnag, yn yr achos hwn y risg o gamddefnyddio'r wybodaeth yw'r ystyriaeth bwysicaf.

Fodd bynnag, er gwybodaeth, ers yr argyfwng COVID-19 mae glanhawyr yn gweithio ddydd a nos i sicrhau bod y trenau'n cael eu glanhau'n gyson, gan ddefnyddio'r cynhyrchion gorau sydd ar gael a chanolbwyntio ar bwyntiau cyswllt uchel. Mae ymdrechion yn cynnwys defnyddio cynhyrchion glanhau gwrthfeirysol gyda chyfnod diogelu saith niwrnod, ynghyd â glanhau trenau'n drylwyr o leiaf bob 24 awr, a glanhau mannau cyffwrdd pwysig fel byrddau, handlenni ac unrhyw le lle gallai pobl roi eu dwylo yn rheolaidd.

Yn ystod y chwe wythnos diwethaf, mae glanhawyr ychwanegol wedi'u cyflogi i weithio'r shifftiau dydd a nos mewn depos trenau ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau, ynghyd â defnyddio glanweithyddion ychwanegol ar drenau. Mae'r timau glanhau hyn wedi derbyn y cyfarpar angenrheidiol i gadw'n ddiogel eu hunain.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru